Ysgol Gymraeg Cwmnedd
Polisi AAY

Llofnodwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr _____

Dyddiad cymeradwyo: 24/10/18
(gan y corff llywodraethol llawn)

Dyddiad adolygu: Yn flynyddol

Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmnedd

Polisi Anghenion Addysgu Ychwanegol

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC) yn ganolog i gynlluniau, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel Ysgol sy'n Parchu Hawliau rydym yn addysgu am hawliau plant a hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas

Cyflwyniad.
Mae'r Polisi hwn yn ystyried yn ofalus Ddeddf Addysg 1996, Cod Ymarfer AAA Cymru 2002, Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001, polisi'r Awdurdod Addysg Leol a nodau'r ysgol fel yr amlinellir yn nogfennaeth yr ysgol. Dylid darllen y polisi yma ynghlwm a pholisi asesu'r ysgol.

Mae gan bob plentyn sgiliau, dawn a galluoedd ac fel ysgol mae gennym gyfrifoldeb i ddatblygu'r rhain i'r eithaf. Credwn fod:

- Gan bob plentyn hawl i addysg berthnasol ac ystyrlon sydd wedi'i llunio i alluogi pob plentyn unigol i gyfranogi'n llawn mewn cymdeithas, gan gyfrannu ati ac elwa ohoni.

- Bydd pob aelod o'r Staff yn ymdrechu i sicrhau bod cwricwlwm eang, cytbwys, perthnasol a gwahaniaethol, gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol, yn cael ei ddarparu ar gyfer pob plentyn yn yr ysgol.

- Dylid cefnogi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig pryd bynnag y mae angen i gael mynediad llawn i'r cwricwlwm ysgol gyfan. Bydd angen hwyluso hwn drwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys staff medrus, cyfarpar ac adnoddau arbenigol.

Nodau Cyffredinol / Cynhaliaeth:
Yn YGG Cwmnedd ymdrechwn i ddiwallu anghenion pob plentyn. Dysgir plant ag AAY yn y brif ffrwd, er mwyn iddynt gael y mynediad gorau posib i'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhoddir cefnogaeth ychwanegol i grwpiau o blant yn y dosbarth i ddatblygu, gwella ac estyn eu sgiliau dysgu.

Rheoli AAY

i) Rôl y Pennaeth.
Mae gan y Pennaeth gyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau darpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAY ar draws yr ysgol ac i hysbysu'r Corff Llywodraethu'n llawn am unrhyw ddatblygiadau yn y maes hwn.

ii) Rôl y Cydlynydd AAY.

Mrs Julie Davies, yw'r Cydlynydd AAY (SENCO) a hi sydd â chyfrifoldeb dros weithrediad bob dydd y polisi AAY.

Mae'r SENCO yn gyfrifol am gynllunio a chydlynu cefnogaeth ar gyfer disgyblion ag AAY ar draws yr ysgol, fel yr amlinellir yng Nghod Ymarfer AAA Cymru 2002, yn unol â'u hanghenion unigol.
Hefyd, bydd y SENCO yn:

1) Darparu Cynllun Gweithredu tymhorol i staff ysgol gyfan yn amlinellu'r holl ddatblygiadau / newidiadau (gweler enghraifft ar **Atodiad A**).

2) Goruchwylio gweithrediad y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion gydag anghenion addysgu ychwanegol, gan gynnwys cefnogi disgyblion yn y dosbarth, mewn grwpiau bach ac yn unigol.
3) Trefnu a goruchwylio gwaith y Cynorthwywyr Dosbarth AAY.
4) Cynnal Cofrestr Anghenion Addysgu Ychwanegol yr ysgol a'r holl ddogfennaeth angenrheidiol.
5) Cadw cofnodion am ddisgyblion ag anghenion addysgu ychwanegol a sicrhau bod eu cynnydd yn cael ei fonitro a'i adolygu'n gyson.
6) Cysylltu ag athrawon dosbarth, y Cynorthwywyr Dosbarth AAY, rhieni ac asiantaethau allanol.
7) Sicrhau bod adolygiadau blynyddol ar gyfer disgyblion AAY â datganiad yn cael eu cwblhau.
8) Trefnu cyfarfodydd rheolaidd gydag athrawon dynodedig fel bo'n briodol o ran materion anghenion ychwanegol.
9) Adolygu a monitro darpariaeth AAY o fewn yr ysgol yn rheolaidd.
10) Cymryd rhan mewn cyfarfodydd ffurfiol gydag asiantaethau allanol o ran disgyblion unigol sydd i'w hasesu.
11) Mynychu a darparu mynediad i hyfforddiant mewn swydd er mwyn diwallu anghenion yr ysgol ac aelodau unigol o'r staff.
12) Cyfrannu i'r Adroddiad Blynyddol i Rieni yn ôl yr angen.

iii) Rôl y Corff Llywodraethu.
Mae'r Corff Llywodraethu wedi penodi Mrs Jody Clarke fel Llywodraethwr â chyfrifoldeb penodol dros AAY. Daw'r cynrychiolydd i'r ysgol yn dymhorol i drafod datblygiadau gyda'r SENCO.

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu ystyried y Cod Ymarfer AAA ynghyd â Rhan 2 Deddf AAA ac Anabledd 2001 (sy'n diwygio Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995) wrth gyflawni eu dyletswyddau o ran pob disgybl ag AAY.

Bydd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am newidiadau i'r polisi AAY. Bydd llywodraethwyr yr ysgol yn sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gyflawni amcanion yr ysgol ar gyfer disgyblion ag AAY.

<u>Trefniadau Derbyn.</u>
Mae'r ysgol yn cadw at bolisi derbyn yr AALl ac felly nid oes ganddi unrhyw ddarpariaeth benodol dan drefniadau derbyn ar gyfer cyfyngu neu hyrwyddo mynediad i ddisgyblion ag anghenion arbennig â neu heb ddatganiadau. Fodd bynnag mae'n ymdrechu i ddarparu cefnogaeth briodol ar gyfer disgyblion ag amrywiaeth o anghenion dysgu ychwanegol.

<u>Mynediad i'r Anabl.</u>
Mae mynediad hwylus i adeiladau'r Babanod ac Iau ac mae ramp ar un o fynediadau adeilad y Babanod. Lleolir toiledau i'r anabl ym mhrif adeilad yr ysgol.

<u>Cyfleusterau Arbennig.</u>
Bydd yr ysgol yn darparu cyfarpar arbennig i ddisgyblion, os oes angen, er mwyn sicrhau bod eu hanghenion unigol yn cael eu diwallu wrth iddynt gyflawni'r cwricwlwm.

Dadansoddi Gwerth Gorau.
Mae'r SENCO a'r Pennaeth yn defnyddio dadansoddiad meintiol ac ansoddol wrth werthuso darpariaeth AAY. Defnyddir y meini prawf canlynol i nodi gwerth gorau:

- Mae disgyblion ar y gofrestr AAY wedi gwneud cynnydd amrywiol yn ôl cofnodion y staff.
- Mae asesiadau darllen, sillafu a diagnostig yn dangos cynnydd unigolyn ar ein sustem dracio electroneg 'Sims'.
- Drwy adborth arsylwi gwersi i asesu addasrwydd deunyddiau cwricwlaidd.
- Monitro darpariaeth AAY drwy amrywiaeth o ffurflenni safonol i gasglu gwybodaeth ar ddisgyblion, staffio a'r systemau sy'n bodoli.

Cynllunio ar gyfer y Dyfodol.
Mae cynllunio AAY ar gyfer y dyfodol yn digwydd yn unol â:

- Gwerthuso parhaus gwerth gorau.
- Cyllideb AAY blynyddol.
- Gorchmynion parhaus o'r AALl a'r llywodraeth.

Nodi ac Asesu

Yn y dosbarth.
Yr athro/athrawes dosbarth fydd yn gyfrifol am y camau cyntaf o ran nodi disgyblion ag AAY. Bydd ef/hi yn asesu ac yn cofnodi'r anghenion hyn fel rhan o'r Ymateb Graddol a argymhellir yn y Cod Ymarfer. Wrth i gynnydd gael ei fonitro, dylai rhieni gael eu hysbysu am natur yr anawsterau ac am unrhyw strategaethau y gellid eu defnyddio gartref i atgyfnerthu gwaith dosbarth. Ar ôl cyfnod o 6 mis, os nad yw'r strategaethau ychwanegol a ddefnyddir o fewn y dosbarth yn effeithiol o ran trechu'r anawsterau hyn, mae'n bosib y bydd angen ymyrraeth bellach a gall y plentyn symud ymlaen i 'Weithredu Ysgol'.

'Gweithredu Ysgol' – sy'n ymwneud â'r SENCO.
Mae'r sbardunau ar gyfer ymyrraeth Gweithredu Ysgol yn gallu codi o bryderon athrawon neu bobl eraill, wedi'u seilio ar dystiolaeth, am blentyn sy'n dangos y nodweddion canlynol er iddo dderbyn cyfleoedd dysgu gwahaniaethol:

- Yn gwneud ychydig neu ddim cynnydd hyd yn oed pan fydd dulliau addysgu'n cael eu targedu ar wendidau a nodwyd mewn plentyn.
- Anawsterau emosiynol neu ymddygiadol parhaus nad ydynt yn cael eu gwella gan y technegau rheoli ymddygiad a ddefnyddir fel arfer yn yr ysgol.
- Yn meddu ar broblemau synhwyraidd neu gorfforol, ac yn parhau i wneud ychydig neu ddim cynnydd er i gyfarpar arbenigol gael ei ddarparu.
- Yn meddu ar anawsterau cyfathrebu a/neu ryngweithiol ac yn parhau i wneud ychydig neu ddim cynnydd er i gwricwlwm gwahaniaethol gael ei ddarparu.'

Os bydd angen symud disgybl ymlaen i 'Weithredu Ysgol', bydd yr athro/athrawes dosbarth yn hysbysu'r SENCO, y plentyn a rhieni'r plentyn. Gyda'i gilydd byddant yn llunio Cynllun Addysg Unigol (CAU). Bydd unrhyw asesiadau a wneir yn ystod y cyfnod hwn yn cael eu defnyddio i danlinellu cryfderau ac anghenion unigol y plentyn ac fel sail i'r CAU. Cyn belled â phosib, bydd yr holl ddisgyblion ar 'Weithredu Ysgol' yn derbyn cymorth grŵp bach neu unigol gan y Cynorthwywyr Dosbarth AAY am gyfnodau amrywiol o amser, drwy eu cefnogi yn y dosbarth, yn ôl eu hanghenion. Bydd disgyblion yn y categori hwn yn dilyn CAU neu Gynllun Addysg Grŵp.

Ar ddiwedd pob tymor bydd y SENCO, yr athro/wes ddosbarth a'r Cynorthwywyr Dosbarth AAY yn adolygu cynnydd plentyn drwy adolygu nifer y targedau CAU a gyflawnwyd, gan drafod cynnydd y plentyn gyda'r athro/athrawes dosbarth a'r cynnydd a wnaethpwyd yn ystod y tymor gyda'r disgybl a'i rieni. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, llunnir y CAU nesaf neu cytunir ar dynnu'r disgybl oddi ar y gofrestr AAY, neu mae'r ysgol yn penderfynu gofyn am gyngor asiantaethau allanol i ddiwallu anghenion y plentyn.

<u>Gweithredu Ysgol a Mwy sy'n defnyddio Gwasanaethau Cefnogi Allanol.</u>
Fel Gweithredu Ysgol, mae'r sbardun ar gyfer Gweithredu Ysgol a Mwy yn dilyn y Cod Ymarfer: 'Er iddo dderbyn rhaglen unigol neu gefnogaeth ddwys dan Weithredu Ysgol, mae'r sbardunau ar gyfer Gweithredu Ysgol a Mwy yn bodoli pan fydd y plentyn:

- Yn parhau i wneud ychydig neu ddim cynnydd dros gyfnod hir.
- Yn parhau i weithio ar lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n sylweddol is na'r hyn a ddisgwylir mewn plant o'r un oedran.
- Yn parhau i brofi anhawster wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd a mathemateg.
- Yn meddu ar anawsterau emosiynol neu ymddygiadol sy'n amharu'n sylweddol ac yn gyson ar ddysgu'r plentyn ei hun neu'r dosbarth neu grŵp, er iddo dderbyn rhaglen rheoli ymddygiad unigol.
- Yn meddu ar anghenion synhwyraidd neu gorfforol sy'n gofyn am gyfarpar arbenigol ychwanegol neu gyngor rheolaidd neu ymweliadau gan wasanaeth arbenigol.
- Yn profi anawsterau cyfathrebu neu ryngweithio parhaus sy'n amharu ar ddatblygu perthnasoedd cymdeithasol ac yn achosi rhwystrau sylweddol i ddysgu.'

Yn achlysurol mae'n bosib y bydd angen cymorth ar blentyn neu asesiad gan arbenigwr allanol e.e. Seicolegydd Addysg, Athro/Athrawes Gynorthwyol, Therapydd Iaith a Lleferydd ac ati (Cyfeiriwch at y ffeil AAY). Bydd y cais hwn am gymorth yn unol â chanllawiau'r AALl. Bydd y SENCO/ athro / Cynorthwywyr Dosbarth AAY yn casglu gwybodaeth berthnasol. Bydd y cais hwn am gymorth yn cael ei wneud dim ond ar ôl cael caniatâd y rhieni.

Pan fydd cefnogaeth ac arweiniad pellach yn cael eu darparu gan asiantaethau allanol, bydd cydweithredu agos rhwng y Cynorthwywyr Dosbarth AAY, yr Athro/Athrawes Dosbarth, y SENCO a rhieni'r plant yn sicrhau bod y gefnogaeth/cyngor ychwanegol hwn yn cael ei weithredu a'i fwydo i mewn i'r CAU dilynol.

Ar ddiwedd pob tymor, bydd y SENCO a'r Athrawon Dosbarth yn adolygu cynnydd disgybl drwy adolygu'r nifer o dargedau CAU a gyflawnwyd, gan hefyd drafod y cynnydd a wnaethpwyd yn ystod y tymor gyda'r plentyn a'i rieni a cheisio cyngor pellach gan asiantaethau allanol os oes angen. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, llunnir y CAU nesaf neu cytunir ar symud y disgybl yn ôl i Weithredu Ysgol, neu penderfynir bod diffyg cynnydd y plentyn yn destun pryder sylweddol a bod angen gofyn i'r AALl am Asesiad Statudol.

Asesiad Statudol/Datganiad Anghenion Dysgu Ychwanegol

Fel yr amlinellir yn y Côd Ymarfer, 'pan wneir cais i'r AALl gan ysgol am asesiad statudol, bydd y plentyn yn destun pryder sylweddol.' Bydd yr ysgol yn darparu tystiolaeth o:

- Weithredu'r ysgol drwy Weithredu Ysgol a Gweithredu Ysgol a Mwy.
- Cynlluniau Addysg Unigol y disgybl.
- Cofnodion adolygiadau rheolaidd a'u canlyniadau.
- Iechyd y disgybl gan gynnwys cofnod meddygol y plentyn lle bo'n berthnasol.
- Lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol.
- Cyrhaeddiad mewn llythrennedd a mathemateg.
- Asesiadau addysgol ac asesiadau eraill, gan athro/athrawes gynorthwyol ymgynghorol arbenigol neu seicolegydd addysg, er enghraifft.
- Barn y rhieni a'r plentyn.
- Mewnbwn gweithwyr proffesiynol eraill.
- Mewnbwn y gwasanaethau cymdeithasol neu'r gwasanaeth lles addysg.

Mae'n rhaid i'r ysgol gael caniatâd rhieni cyn gwneud cais am asesiad statudol. Bydd y SENCO yn gyfrifol am goladu a chasglu'r dystiolaeth angenrheidiol gan yr AALl. Mae'r AALl yn gyfrifol wedyn am benderfynu a oes angen Asesiad Ffurfiol neu beidio. O ganlyniad i gael eu hasesu mae'n bosib y bydd nifer bach o blant yn derbyn Datganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol neu Nodyn yn lle Datganiad. Lle nad yw'r AALl yn rhoi datganiad, bydd y plentyn yn aros ar Weithredu Ysgol a Mwy.

Wrth dderbyn Datganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol gan yr AALl ar gyfer plentyn, bydd y SENCO yn llunio cynllun gweithredu o gefnogaeth/ darpariaeth. Bydd y cyngor a'r wybodaeth a amlinellir ar y Datganiad yn sail ar gyfer CAU'r plentyn ynghyd â barn y plentyn a'r rhieni.

Yr Adolygiad Blynyddol.

Bydd datganiadau'n cael eu hadolygu gan yr ysgol yn flynyddol a byddant yn cael eu diweddaru gan yr AALl yn ôl yr angen, yn unol ag argymhellion y cyfarfod adolygu. Bydd Adolygiadau Blynyddol yn cael eu gweithredu yn unol â chanllawiau'r AALl a hefyd â'r rhai a nodir yn y Côd Ymarfer.

Bydd y SENCO (ar gyfer plant â datganiadau) ac athrawon dosbarth yn gyfrifol am gasglu a choladu tystiolaeth am gynnydd a gwybodaeth gan staff, rhieni, y plentyn ac asiantaethau allanol cyn yr adolygiad blynyddol. Yn ogystal â thrafodaeth gyda staff cynorthwyol, athrawon dosbarth, rhieni a'r disgyblion eu hunain, gellir llunio'r CAU nesaf neu gychwyn yn gynnar ar adolygiad blynyddol. Yn yr adolygiad blynyddol, mae cynnydd yn cael ei drafod ac mae'r datganiad naill ai'n cael ei gynnal, gyda CAU pellach yn cael ei gynhyrchu, neu cyflwynir cais i ddiwygio'r datganiad, neu cyflwynir cais i ddod â'r datganiad i ben a symud yn ôl i Weithredu Ysgol a Mwy.

Partneriaeth gydag Ysgolion Eraill.

Pan fydd plentyn yn symud i ysgol arall neu'n symud ymlaen i'r sector uwchradd, cynhelir trafodaeth rhwng y Pennaeth neu'r SENCO a staff yr ysgol newydd er mwyn trosglwyddo gwybodaeth am anghenion y disgybl hwnnw. Cynhelir cyfarfod blynyddol rhwng y SENCO a Phennaeth Blwyddyn 7 Ysgol Gyfun Ystalyfera neu Rhyd y Waun er mwyn sicrhau parhad y ddarpariaeth ar gyfer ein disgyblion ag AAY ym Mlwyddyn 6. Gwahoddir SENCO'r naill ysgol gyfun neu'r llall i fynychu Adolygiadau Blynyddol disgyblion Blwyddyn 6, gan ddibynnu ar ba ysgol y bydd y disgybl yn ei mynychu yn y dyfodol.

Partneriaeth â Rhieni.

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmnedd yn gweld rhieni fel partneriaid yn addysg eu plant. Mae'r ysgol yn sicrhau bod rhieni'n cael eu hysbysu'n llawn am unrhyw ddatblygiadau yn addysg eu plant. Cysylltir â hwy'n uniongyrchol os oes unrhyw newid yng nghynnydd, ymddygiad neu ddarpariaeth addysgol eu plant yn yr ysgol. Mae'r broses cysylltu â rhieni o ran plant ag anghenion addysgu ychwanegol fel a ganlyn:

1. Mae'r Athrawon Dosbarth yn cwrdd â rhieni i drafod sefyllfa'r disgybl ar lefel Gweithredu Ysgol ac mae'r athrawon a'r SENCO yn cwrdd â rhieni i drafod sefyllfa'r disgybl ar lefel Gweithredu Ysgol a Mwy.
2. Bydd rhan o'r cylch o adolygiadau'n digwydd mewn nosweithiau rhieni arferol.
3. Mae'r SENCO yn trefnu cyfarfodydd/adolygiadau ychwanegol lle bo'n briodol neu lle mae pryderon ynghylch cynnydd y disgybl.
4. Mae'r SENCO yn cwrdd â rhieni pan fwriedir gwneud cais am asesiad ffurfiol.
5. Yn ogystal â nosweithiau rhieni i adolygu CAU, bydd y rhieni hynny y mae gan eu plentyn ddatganiad o anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu gwahodd i gyfarfod adolygu blynyddol.

Ar ben hynny, mae'r ysgol yn gweithredu polisi drws agored lle anogir rhieni i ofyn am gyfle i gael trafodaeth anffurfiol neu gyfarfod a drefnir ar unrhyw adeg.

Cyfranogaeth Disgyblion.

Mae'r plentyn ei hun yn ganolog yn yr holl broses o nodi, asesu a darparu ar gyfer anghenion addysgu ychwanegol. Anogir disgyblion i gymryd rôl mor weithredol â phosib wrth gydnabod eu hanawsterau eu hunain drwy hunanasesu eu gwaith, wrth gynllunio eu darpariaeth eu hunain drwy gyfrannu at y targedau a osodwyd ar eu CAU ac wrth fonitro eu cynnydd eu hunain drwy gadw cofnod personol o'r targedau a gyflawnwyd.

Gweithdrefn Gwyno.

Dylai rhieni nad ydynt yn fodlon ar unrhyw agwedd ar y ddarpariaeth a wnaed ar gyfer eu plentyn gysylltu â'r athro/athrawes dosbarth, y SENCO neu'r Pennaeth yn y lle cyntaf. Yna bydd cyfarfod yn cael ei drefnu i drafod y broblem. Bydd cyfarfod pellach yn cael ei drefnu yn ôl yr angen, er mwyn caniatáu trafodaeth gyda staff perthnasol a llunio cynllun gweithredu i ymdrin â phryderon rhieni.

Mewn amgylchiadau lle mae rhieni'n methu â chytuno â'r ysgol, dylid eu hysbysu am y Tribiwnlys AAY, sy'n ystyried pryderon rhieni – mae hwn yn annibynnol o'r AALl. Gall gwasanaethau cefnogi fel SNAP gynnig cyngor a chefnogaeth i rieni sy'n penderfynu dewis yr opsiwn hwn. Bydd yr AALl yn hysbysu rhieni am eu hopsiynau.

Monitro ac Adolygu'r Polisi AAY

Bydd y polisi'n cael ei adolygu'n flynyddol gyda mewnbwn gan staff sy'n ymwneud â'i weithredu, gan ddefnyddio llwyddiant darpariaeth AAY, cynnydd disgyblion unigol tuag at eu targedau a defnyddio adnoddau'n effeithiol fel meini prawf asesu. Yna bydd y wybodaeth hon yn sail Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethu i Rieni am ddarpariaeth AAY yn yr ysgol.

Mae'r wybodaeth ganlynol am effeithiolrwydd y gefnogaeth sydd ar gael i blant ag anghenion addysgu ychwanegol a nodwyd ar gael yn yr ysgol. Fe'i cesglir o fonitro a gwerthuso drwy arsylwi:

- Addysgu dosbarth cyfan/grŵp.
- Addysgu grŵp bach/unigol.
- Cefnogaeth yn y dosbarth.
- Defnyddio addysgu gwahaniaethol/adnoddau/cyfarpar arbenigol.
- Defnydd ymarferol o CAU.
- Gosod targedau.
- Cynnydd disgyblion.

Ychwanegu Gwerth a phlant MAD

Mae syniad 'ychwanegu gwerth' yn un sy'n bwysig i Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe, ac mae'n cael ei fonitro drwy gyflawniadau disgyblion mewn perthynas ag asesiadau a chanlyniadau yn y ffyrdd canlynol:

i). Asesiadau/profion, mewnol ac allanol
ii). Cynlluniau gwobrwyo'r ysgol
iii). Gweithgareddau allgyrsiol

Mae'r ddarpariaeth hon yn darparu golwg gwerthfawr ar gynnydd disgyblion ag anghenion addysgol arbennig gan gynnwys y disgyblion Mwy Abl a Dawnus.

Hyfforddiant mewn Swydd.

Mae Hyfforddiant Mewn Swydd AAY ar gael ar gyfer yr ysgol gyfan neu aelodau unigol o'r staff. Bydd darpariaeth yr hyfforddiant yn cael ei dyrannu pan fydd angen cydnabyddedig ac fe fydd yn unol â blaenoriaethau Datblygiad Proffesiynol yr ysgol. Caiff ei gyflwyno gan un o'r canlynol:

- SENCO
- Aelodau unigol o staff yr ysgol sydd ag arbenigedd dynodedig.
- Gwasanaethau Cynorthwyol yr AALl.
- Ymgynghorwyr/hyfforddwyr allanol.